

Ymgynghoriad ar ein Cynllun Strategol 2023-26

Adroddiad ar y casgliadau

Mai 2023

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoedd y gweithlu iechyd a gofal.

Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau'r ymgynghoriad.....	3
3. Effaith	10
4. Camau nesaf	11

1. Cyflwyniad

Ein rôl

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn helpu amddiffyn y cyhoedd trwy ein gwaith gyda sefydliadau sy'n cofrestru a rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002 (fel y'i diwygiwyd).

Gweledigaeth yr Awdurdod yw: gofal mwy diogel i bawb trwy safonau uchel o gymhwysedd ac ymddygiad mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Ein cenhadaeth yw: diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy wella'r broses o reoleiddio a chofrestru gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Mae tri phrif faes i'n gwaith:

- Rydym yn goruchwyllo gwaith y 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Rydym yn achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Ein nod yw gwella rheoleiddio trwy ddarparu cyngor i lywodraeth y Deyrnas Unedig ac eraill, cyflawni/comisiynu ymchwil a hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.

Pam ein bod wedi ymgynghori

Mae nodau ac amcanion yr Awdurdod wedi'u cyhoeddi yn ei gynllun strategol. Rydym hefyd yn cyhoeddi cynllun busnes blynyddol sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion hyn. Hyd yma, rydym wedi cyhoeddi ein nodau strategol fel rhan o'r cynllun busnes blynyddol. Pennwyd yr amcanion am gyfnod o dair blynedd a chawsant eu diweddarau ar sail dreigl.

Ar gyfer 2023-26, byddwn yn cyhoeddi cynllun strategol tair blynedd nad yw'n cael ei adnewyddu'n flynyddol, er y bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ar gynllun strategol drafft 2023-26 am y tro cyntaf, gyda'r nod y byddai hyn yn galluogi grŵp ehangach o randdeiliaid i gyfrannu at ein cynlluniau.

Roedd Cynllun Strategol drafft 2023-26 yn cynnwys tri nod strategol cyffredinol:

1. Nod Strategol 1: diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru
2. Nod Strategol 2: gwneud rheoleiddio a chofrestru yn well ac yn decach
3. Nod Strategol 3: hyrwyddo a chefnogi gofal mwy diogel i bawb

Mae'r themâu o'n hadroddiad Gofal Mwy Diogel i Bawb, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, yn sail i'r nodau hyn. Y themâu hyn yw: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd; wynebu'r argyfwng gweithlu; ac atebolrwydd, ofn a diogelwch y cyhoedd.

Yr ymgynghoriad a phwy ymatebodd

Gofynnodd yr ymgynghoriad cyhoeddus am farn ar ein Cynllun Strategol drafft 2023-26.¹ Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 11 wythnos, rhwng o 8 Rhagfyr 2022 a 24 Chwefror 2023.

Gofynnodd yr ymgynghoriad 12 cwestiwn o sylwedd a chafwyd ymateb gan 35 o randdeiliaid. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys 11 o'r rheolyddion statudol a'r Cofrestrau Achrededig y mae'r Awdurdod yn eu goruchwylio, un corff cynrychioli cleifion, 11 o gymdeithasau proffesiynol, a thri sefydliad GIG.

Fe wnaethom hefyd ofyn i randdeiliaid am eu barn ar feysydd penodol o Gynllun Strategol drafft 2023-26 fel rhan o ymgysylltu arall yn ystod y cyfnod ymgynghori. Y prif gyfrwng ar gyfer hyn oedd ymgysylltu ar ein hadroddiad *Gofal Mwy Diogel i Bawb*, gan fod y pedair thema yn rhedeg drwy bob un o'r amcanion strategol.

¹ Ar gael ar: https://professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/our-consultation/2022-consultation-on-draft-professional-standards-authority-strategic-plan-2023-2026/psa-public-consultation-on-its-draft-strategic-plan-2023-26.pdf?sfvrsn=704a4b20_7

2. Canfyddiadau'r ymgynghoriad

Roedd cytundeb cyffredinol ar gyfer llawer o'r Strategaeth gan y mwyafrif. Maes cefnogaeth gyson ar draws yr holl gwestiynau oedd i'r Awdurdod chwarae rhan gynnull a rhannu arfer gorau ar draws rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig. Croesawyd hefyd y ffocws mwy ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Roedd yr angen i sefydliadau gydweithio i fynd i'r afael â materion gweithlu yn thema a gododd dro ar ôl tro.

Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn amrywio o ran pa mor bell yr oeddent yn meddwl y dylai'r Awdurdod, a'r rhai y mae'n eu goruchwylio, fynd y tu hwnt i'w cylchoedd gwaith statudol llym i gyflawni hyn. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch yr adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen ar yr Awdurdod, a'r rhai y mae'n eu goruchwylio, i gyflawni ei strategaeth.

Cyfyngiad ar y dadansoddiad hwn yw'r gyfradd ymateb fach o 35. Mae hyn yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys dadansoddiad meintiol. Er gwaethaf hyn, mae'r manylion a ddarparwyd yn y sylwadau gan ymatebwyr wedi caniatáu ar gyfer nodi themâu eang.

Y cyd-destun ar gyfer ein strategaeth

Ffactorau sy'n effeithio ar y dirwedd reoleiddiol

Gofynnem a oedd unrhyw ffactorau y dylem eu hystyried yn ychwanegol at y rhai yr ydym wedi'u nodi yn y cynllun strategol a fydd yn effeithio ar y dirwedd reoleiddiol yn y tair blynedd nesaf.


Amlygwyd newidiadau o fewn addysg a hyfforddiant gan nifer o ymatebwyr. Disgrifiodd un ymatebwr y dirwedd reoleiddio bresennol ar gyfer addysg gofal iechyd fel un 'cymhleth a thameidiog'. Amlygwyd y newidiadau i addysg sydd eu hangen i arfogi unigolion cofrestredig i addasu i ffyrdd newydd o ddarparu gofal a datblygiadau mewn technoleg, gyda rhai'n awgrymu y dylai'r Awdurdod ddefnyddio ei rôl oruchwylio i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Amlygwyd hefyd bwysigrwydd ystyried newidiadau i strwythur a pholisi'r GIG. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar yr angen i'r Awdurdod ymateb i, a chefnogi rheolyddion gyda'r mathau hyn o newidiadau. Roedd heriau o ran recriwtio a chadw, a ffactorau eraill sy'n effeithio ar y gweithlu megis y cynnydd presennol mewn costau byw, hefyd yn codi eto fel themâu sy'n effeithio ar gyd-destun ehangach y strategaeth. Roedd cefnogi diwylliannau gweithlu cadarnhaol yn thema a gododd dro ar ôl tro.

Gofal mwy diogel ar gyfer pob thema

Gofynnwyd i ymatebwyr pa un o'r pedair thema yn ein hadroddiad *Gofal Mwy Diogel i Bawb* sydd bwysicaf inni ganolbwyntio arnynt. Y pedair thema yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau; rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd; wynebu'r argyfwng gweithlu; ac atebolrwydd, ofn a diogelwch y cyhoedd.

Dangosir safle'r themâu gan ymatebwyr yn y siart isod.



Soniodd llawer o ymatebwyr am gyd-ddibyniaeth y themâu hyn, a bod pob un ohonynt yn bwysig. Ni wnaeth un ymatebydd eu graddio am y rheswm hwn. O'r rhai a ymatebodd roedd consensws eang mai'r ddwy thema bwysicaf i fynd i'r afael â nhw yw'r argyfwng gweithlu; ac yna atebolrwydd, ofn a diogelwch y cyhoedd. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau oedd y thema fwyaf poblogaidd fel trydydd dewis, a rheoleiddio ar gyfer risgiau newydd oedd y pedwerydd dewis mwyaf poblogaidd. Nid oedd digon o ymatebion ar gyfer dadansoddiad ystyrllon o amrywiadau ar draws grwpiau rhanddeiliaid ar gyfer y cwestiwn hwn.


Gwahoddwyd ymatebwyr i esbonio'r rhesymeg dros eu dewisiadau. Amlygodd llawer a nododd yr argyfwng gweithlu fel y brif flaenoriaeth effaith pwysau'r gweithlu ar gleifion a'r cyhoedd, gan nodi y bydd yn anodd datrys problemau eraill heb fynd i'r afael â'r broblem hon. Dywedodd un ymatebwr, er ei fod yn credu mai gweithlu yw'r broblem fwyaf, roedd wedi'i restru ddiwethaf gan nad oedd yn cytuno y dylai effeithio ar benderfyniadau rheoleiddio.

Dywedodd llawer y dylai ffocws ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) redeg trwy bopeth. Dywedodd un ymatebwr na roddwyd digon o sylw i'r maes hwn yn y gorffennol. Cysylltodd nifer o ymatebwyr y thema hon ag atebolrwydd, ofn a diogelwch y cyhoedd; gan nodi bod galluogi diwylliant lle mae'r holl staff yn teimlo y gallant godi llais yn hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion.

Blaenoriaethu'r argymhellion a'r ymrwymadau yn Gofal Mwy Diogel i Bawb

Gofynnwyd i ymatebwyr pa rai o'r argymhellion a'r ymrwymadau yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb* y dylem eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu. Ceir rhestr lawn o'r argymhellion a'r ymrwymadau yn Atodiad 1.

Mae siart yn dangos pa mor aml y dewiswyd argymhellion ac ymrwymïadau gan ymatebwyr isod.



Yr argymhellion a'r ymrwymïadau a ddewiswyd amlaf gan ymatebwyr (amledd o bedwar neu uwch) oedd:

- Argymhelliad 6: Mae llywodraethau'n defnyddio'r rhaglen diwygio rheoliadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol presennol i:
 - Adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd pwerau rheolyddion sydd â rôl mewn rheoleiddio busnesau.
 - Ystyried a oes achos dros ymestyn pwerau rheoleiddio busnes i bob rheoleiddiwr y mae ei gofrestryddion yn gweithio mewn practisau 'stryd fawr'.
 - Sicrhau bod gan reolyddion yr ystwythder i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil dulliau newydd o ariannu a darparu gofal, gan gynnwys cyflwyno technolegau newydd.
- Argymhelliad 7: Mae rheolyddion yn mynd i'r afael ag arferion busnes sy'n methu â rhoi cleifion yn gyntaf, mewn perygl o danseilio hyder yn y proffesiynau, neu'n methu â chaniatáu i unigolion cofrestredig arfer eu barn broffesiynol. Dylid cynnal adolygiad traws-sector o effeithiolrwydd trefniadau i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau ariannol ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Argymhelliad 8: Mae llywodraethau, rheolyddion a chofrestrau yn adolygu sut y byddant yn pennu'r llinellau atebolrwydd ar gyfer technolegau newydd a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal.
- Argymhelliad 9: Mae rheolyddion a chofrestrau yn cydweithio i nodi cyfleoedd i gyflymu cyflenwad y gweithlu, arfogi ymarferwyr i ymdrin â heriau yn y dyfodol o ran

sut y caiff gofal ei ddarparu, cau bylchau diogelwch ac amddiffyn cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

- Argymhelliaid 10: Mae proses glir i arwain datblygiad rolau iechyd a gofal newydd gan gynnwys cwmpas a diben y rôl, a'r broses ar gyfer penderfynu ar lefel y sicrwydd sydd ei angen.

Gofynnem i ymatebwyr egluro eu dewisiadau. Roedd y rhesymeg dros yr adrannau yn debyg i'r cwestiwn blaenorol am bwysigrwydd themâu yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb*, gyda llawer o ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar gyflenwad y gweithlu cyn y gellir gwneud gwelliannau eraill. Er na ddewiswyd yr argymhellion a'r ymrwymadau ynghylch anghydraddoldebau mor aml â'r rhai uchod, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu mewn prosesau rheoleiddio. Er gwaethaf hyn, ni ddewisodd ymatebwyr Argymhelliaid 5, 'Data demograffig ar gwynion a wneir i'r gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y DU yn cael ei gofnodi a'i wneud ar gael i bob corff ei ddefnyddio.' Ni chafodd Argymhelliaid 11, 'Dylai fod ffordd gytûn hefyd o benderfynu pryd i wyro oddi wrth ddefnyddio dull gweithredu ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn seiliedig ar adolygiad o risgiau a buddion ochr yn ochr ag ystyried y cyd-destun cenedlaethol', ei ddewis gan unrhyw ymatebwyr ychwaith.

Blaenoriaethau atodol ar gyfer yr Awdurdod yn 2023-26

Gofynnem a oedd unrhyw weithgareddau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol drafft y credai ymatebwyr y dylem eu blaenoriaethu yn y cyfnod 2023-26.

Roedd themâu o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys gwaith i gefnogi lleihau cwynion diangen neu anghymesur am unigolion cofrestredig. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Awdurdod ysgogi gwelliannau o ran sut mae rheolyddion yn cyfathrebu â'r cyhoedd a gydag unigolion cofrestredig, yn enwedig ynghylch cwynion.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at yr angen i'r Awdurdod gefnogi rheolyddion drwy ddiwygio rheoleiddio. Awgrymodd Cofrestrau Achrededig presennol a darpar Gofrestrau Achrededig hyrwyddo'r rhaglen Cofrestrau Achrededig i raddau helaethach. Nododd un sefydliad mai cyfyngedig yw'r budd os nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'r Marc Ansawdd Achredu.

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am fwy o eglurder ar waith yr Awdurdod yn y dyfodol, a sut y gallai ei rôl newid ar ôl diwygio rheoleiddio. Awgrymwyd hefyd y dylai nodau strategol gael eu hategu gan nodau a mesurau llwyddiant cliriach, gyda chysylltiadau â'r argymhellion a'r ymrwymadau a nodir yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb*. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i'r Awdurdod allu addasu ei gynlluniau i liniaru risgiau sy'n codi o'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol a allai effeithio ar gyflawni ei nodau strategol a gwaith *Gofal Mwy Diogel i Bawb*.

Soniodd un rheoleiddiwr hefyd am yr angen i'r Awdurdod ystyried ei ymrwymiad ei hun i fod yn sefydliad cynaliadwy ac effeithiol.

Ein gweledigaeth a'n cenhadaeth

Ein gweledigaeth

Gofynnom a oedd ein gweledigaeth (gofal mwy diogel i bawb drwy safonau uchel o gymhwysedd ac ymddygiad mewn gweithwyr iechedd a gofal cymdeithasol proffesiynol) yn briodol ar gyfer gwaith yr Awdurdod. Roedd yna gefnogaeth eang dros hyn. O'r 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, dim ond dau oedd yn anghytuno.

Cyfeiriodd y ddau ymatebydd at ddiffyg ymwneud uniongyrchol yr Awdurdod â gosod safonau ar gyfer proffesiynau iechedd a gofal fel y rheswm pam eu bod yn anghytuno â'r cwestiwn hwn. Roedd un ymatebwr yn ystyried bod y weledigaeth hon felly yn mynd yn rhy bell o ran cylch gorchwyl yr Awdurdod. Dywedodd yr ymatebwr arall fod llunio nodau strategol yr Awdurdod yn ymwneud yn fwy â goruchwyllo a chydweithio na safonau.

Ein cenhadaeth

Gofynnwyd a yw ein cenhadaeth (diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd drwy wella'r broses o reoleiddio a chofrestru gweithwyr iechedd a gofal cymdeithasol proffesiynol) yn briodol ar gyfer gwaith yr Awdurdod. Unwaith eto, roedd cefnogaeth eang i hyn gyda 27 o'r 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno.

O'r tri oedd yn anghytuno, rhoddwyd rhesymau gwahanol. Roedd un sefydliad o'r farn bod rôl oruchwyllo'r Awdurdod yn golygu y gall wella rheoleiddio a chofrestru yn anuniongyrchol, trwy waith y rheolyddion ac y dylai'r datganiad cenhadaeth adlewyrchu hyn. Roedd un sefydliad o'r farn y dylai'r Awdurdod ganolbwyntio cymaint ar ddiogelu gweithwyr gofal iechedd proffesiynol ag ar amddiffyn cleifion ac y dylid diwygio rôl y sefydliad fel y cyfryw. Amlygwyd yr effaith ar brinder gweithlu a all ddeillio o brofiadau niweidiol cofrestryddion o reoleiddio.

Dywedodd y trydydd ymatebwr a oedd yn anghytuno â'r datganiad cenhadaeth eu bod yn meddwl bod 'gwella rheoleiddio' yn awgrymu bod problem sylfaenol gyda'r system reoleiddio bresennol. Roeddent yn awgrymu 'rheoleiddio priodol' fel dewis arall.

Ein nodau strategol

Nod Strategol Un - Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru

Gofynnom a oedd ymatebwyr yn cytuno â'n Nod Strategol 1 arfaethedig: Diogelu'r cyhoedd trwy ddarparu trosolwg effeithiol iawn o reoleiddio a chofrestru; a sut rydym yn bwriadu cyflawni'r nod hwn a monitro cynnydd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, ond awgrymodd sawl un feysydd y gallai'r Awdurdod eu hystyried wrth gyflawni Nod Strategol Un.

Roedd un sefydliad yn cwestiynu a yw mesurau fel mwy o Safonau'n cael eu bodloni gan y rheolyddion, a llai o Amodau yn cael eu rhoi ar Gofrestrau Achrededig y mesurau llwyddiant cywir. Tynnodd ymatebwr arall sylw at y gwrth-ddweud posibl rhwng codi Safonau, a allai arwain at eu bodloni'n llai aml; gyda'r nod o fwy o reolyddion yn bodloni'r Safonau.

Roedd sylwadau eraill ar fesurau llwyddiant yn cynnwys yr awgrym o osod targed ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn rhaglen y Gofrestr Achrededig, ac egluro'r hyn a gaiff ei fesur fel canlyniad uniongyrchol i waith yr Awdurdod.

Roedd un ymatebwr yn cwestiynu a yw 'cofrestriad' eisoes wedi'i gynnwys yn ymhlwg o fewn 'rheoleiddio', ac os yw hyn oherwydd gwahaniaeth rhwng rôl yr Awdurdod mewn perthynas â'r rheolyddion statudol a Chofrestrau Achrededig, y dylid gwneud hyn yn glir.

Cafwyd awgrym hefyd y dylai'r Awdurdod geisio mwy o adborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ar ganfyddiadau o effeithiolrwydd ei brosesau.

Nod Strategol Dau - I wneud rheoleiddio a chofrestru yn well ac yn decach

Gofynnem a oedd ymatebwyr yn cytuno â'n Nod Strategol 2 arfaethedig: Gwneud rheoleiddio a chofrestru yn well ac yn decach; a sut rydym yn bwriadu cyflawni'r nod hwn a monitro cynnydd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno â'r cwestiwn hwn, ond awgrymodd sawl un feysydd y gallai'r Awdurdod eu hystyried wrth gyflawni Nod Strategol Dau.

Yn yr un modd â Nod Strategol Un, awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r mesurau llwyddiant fod yn gliriach, ac wedi'u cysylltu'n fwy penodol â nodau strategol, a chanlyniadau arfaethedig. Crybwyllwyd hyn gan nifer o ymatebwyr mewn perthynas â safonau ar gyfer EDI.

Dywedodd rhai ymatebwyr yr hoffent weld dull mwy ymgynghorol o osod safonau. Dywedodd un rheoleiddiwr yr hoffai ddeall mwy am y dull o flaenoriaethu meysydd ymchwil, cyngor polisi, a'r Safonau. Cwestiynodd un sefydliad sut mae'r Awdurdod yn monitro bod cyngor a chanfyddiadau o adroddiadau allanol eraill, megis ar ragfarn wybyddol wrth wneud penderfyniadau addasrwydd i ymarfer, yn cael eu gweithredu gan y rheolyddion.

Nod Strategol 3 - Hyrwyddo a chefnogi gofal mwy diogel i bawb; a sut rydym yn bwriadu cyflawni'r nod hwn a monitro cynnydd

Gofynnem a oedd ymatebwyr yn cytuno â'n Nod Strategol 3 arfaethedig: Hyrwyddo a chefnogi gofal mwy diogel i bawb; a sut rydym yn bwriadu cyflawni'r nod hwn a monitro cynnydd. O'r 30 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd un yn anghytuno. Gwnaeth llawer o'r rhai a gytunodd awgrymiadau ar sut rydym yn cyflawni Nod Strategol 3.

Nododd y sefydliad a oedd yn anghytuno â'r nod hwn bryder ynghylch datblygu strategaethau rheoleiddio i gefnogi strategaethau'r gweithlu, ar y sail y dylai rheolyddion fod yn annibynnol ac na ddylai fod â rôl wrth gynllunio'r gweithlu. Amlygwyd pryder ganddynt ynghylch lleihau amserlenni ar gyfer addysg a hyfforddiant gan arwain at straen i weithwyr proffesiynol a darparwyr addysg, a gostyngiad mewn ansawdd gofal yn gyffredinol. Nid oeddent ychwaith yn cytuno â'r angen am Gomisiynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan nodi y gallai hyn ddyblygu rôl y Comisiynydd Diogelwch Cleifion a gyflwynwyd yn ddiweddar yn Lloegr a'r Alban.

Rhannwyd rhai o'r pryderon hyn gan eraill a oedd wedi cytuno'n gyffredinol â'r nod hwn. Mynegodd rhai bryder y byddai cynigion rôl y Comisiynydd Diogelwch Cleifion yn wyriad sylweddol oddi wrth rôl bresennol yr Awdurdod a chwestiynwyd a ddylai ffioedd

cofrestryddion gyfrannu at hyn. Awgrymodd un rheoleiddiwr y gellid cyflawni nod yr argymhelliad ynghylch Comisiynydd Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol heb gyflwyno Comisiynwyr newydd, gan fod gwaith eisoes ar y gweill yn lleol ac yn genedlaethol. Roeddent yn awgrymu canolbwyntio yn lle hynny ar fonitro risg yn well, a gweithredu argymhellion o ymchwiliadau cyhoeddus.

Cafwyd sylwadau hefyd gan y rhai a oedd yn cytuno'n gyffredinol, er bod yr argyfwng gweithlu'n bwysig, na ddylid gostwng safonau ar gyfer unigolion cofrestredig mewn ymateb gan fod hyn yn creu perygl o golli hyder y cyhoedd a'r gallu i'w diogelu. Awgrymodd un ymatebwr fod diwygio rheoleiddio yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â materion gweithlu, fel dewis arall. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr eraill y posibilrwydd o oedi i ddiwygio rheoleiddio. Awgrymodd un ymatebwr y byddai cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng gweithlu o gymorth.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddent yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei ragweld gan strategaethau rheoleiddio. Awgrymodd un sefydliad, yn hytrach na dweud y dylai strategaethau rheoleiddio 'danategu' strategaethau gweithlu, gan nodi bod cynllun gweithlu hirdymor nesaf GIG Lloegr eisoes yn cael ei ddatblygu, efallai y byddai'n well canolbwyntio arnynt a disgrifio'r berthynas rhyngddynt.

Er bod rhai pryderon y byddai rhai o'r gweithgareddau yn nod strategol 3 y tu hwnt i gylch gwaith yr Awdurdod, roedd eraill yn cefnogi'r ffaith ei fod yn feiddgar ac yn herio prosesau rheoleiddio, er enghraifft i ddylanwadu ar ffyrdd arloesol o ddarparu addysg gan ddefnyddio technoleg ac efelychu. Roedd awgrym hefyd bod y nod hwn yn gyfle i ddod â safbwyntiau cleifion i mewn i raddau helaethach.

Rôl yr Awdurdod yn y dyfodol

Gofynnem sut ddylai rôl yr Awdurdod esblygu yn y dyfodol, yn enwedig yng nghydestun diwygio rheoleiddio proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr atebion manwl i'r cwestiwn hwn.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ehangu cylch gorchwyl yr Awdurdod i ystyried effeithiau rheoleiddio ar weithwyr proffesiynol, ac i annog mwy o ffocws ar les unigolion cofrestredig yn ogystal â chleifion a'r cyhoedd. Roedd un ymatebwr o'r farn y dylai'r Awdurdod arfer y pŵer i ymchwilio i gwynion a wneir i'r Awdurdod am y ffordd y mae rheoleiddiwr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn arfer ei swyddogaethau, a nodir yn Adran 28 o Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 ond nad yw'n cael ei arfer ar hyn o bryd.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw hefyd at feysydd o rôl bresennol yr Awdurdod y credent eu bod yn bwysig i barhau. Roedd y rhain yn cynnwys trosolwg o'r rheolyddion proffesiynol a Chofrestrau Achrededig. Teimlai un ymatebwr y dylai'r Awdurdod fod yn gryfach wrth amlygu materion o fewn y rheolyddion, fodd bynnag. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd parhau i fod yn arweinydd meddwl byd-eang ym maes rheoleiddio.

Roedd yna hefyd thema a gododd dro ar ôl tro ynghylch pwysigrwydd yr Awdurdod fel llais annibynnol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer hyrwyddo a gwireddu manteision diwygio rheoleiddio a siarad yn uchel lle bo angen i amlygu risgiau neu ganlyniadau anfwriadol. Awgrymwyd hefyd y dylid cael rôl ehangach a mwy strategol o ran goruchwyllo rheoleiddio.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer gwella'r rhaglen Cofrestrau Achrededig. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo Cofrestrau Achrededig i raddau helaethach a chefnogi darpar Gofrestrau trwy weithgareddau megis rhwydweithio a rhannu arfer da.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr y gallai'r Awdurdod wneud mwy i hwyluso cydweithredu ar draws cyrff rheoleiddio, ac ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid. Gallai hyn helpu'r Awdurdod i ddefnyddio ei rôl unigryw i ysgogi newid a hwyluso ymagwedd a rennir ar draws rheolyddion ac eraill.

Newidiadau mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad

Gwnaethom nifer o newidiadau i Gynllun Strategol 2023-26 mewn ymateb i adborth o'r ymgynghoriad.

Mae'r cynllun terfynol yn cydnabod efallai na fydd y broses gymhleth o ddiwygio rheoleiddio wedi'i chwblhau erbyn 2026, ond ein bod yn gobeithio y bydd naill ai'n gyflawn neu'n amlwg ar y gweill ar gyfer pob rheoleiddiwr.

Rydym hefyd wedi cydnabod yn gliriach, pwysigrwydd diwylliannau cadarnhaol yn y gweithle ar gyfer gofal mwy diogel i bawb.

Rydym hefyd wedi cydnabod y bydd ein dadl o blaid Comisiynwyr Diogelwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol (neu swyddogaethau cyfatebol) yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb* yn cael ei ystyried ar wahân gan bob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Yn olaf, gwnaethom nifer o newidiadau i eiriad y ddogfen er mwyn gwella eglurder a thryloywder.

3. Effaith

Gofynnwyd a oedd unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a nodir yn y Cynllun Strategol drafft yn debygol o'u cael ar bobl a/neu eu sefydliad, neu ystyriaethau y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at effeithiau cadarnhaol posibl cynnwys EDI fel thema allweddol yng Nghynllun Strategol 2023-26. Tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd ystyried effeithiau cofrestryddion yn y cyd-destun hwn, yn ogystal â chleifion a'r cyhoedd, gan nodi bod lles a thriniaeth deg gweithwyr proffesiynol wedi'u cysylltu'n gynhenid â chanlyniadau cleifion.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen dewis mesurau yn ofalus er mwyn asesu effaith y strategaeth yn gywir.

Roedd y potensial i waith newydd ysgogi costau ychwanegol i gofrestrau, rheolyddion a'u hunigolion cofrestredig yn thema gyffredin. Roedd ystyried a yw gwaith newydd yn ddyblyg, ac a oedd baich rheoleiddio ychwanegol yn thema allweddol. Codwyd hyn yng nghyd-destun lles a chostau cofrestryddion. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r

Awdurdod adolygu ei fodel ffioedd ar gyfer y rheolyddion o safbwynt cydraddoldeb i weld a yw'n effeithio'n anghymesur ar unrhyw grwpiau o unigolion cofrestredig.

Nodweddion gwarchoddedig

Gofynnwyd a allai unrhyw agweddau ar ein cynigion arwain at driniaeth wahaniaethol o grwpiau neu unigolion, neu effeithio arnynt, yn seiliedig ar y nodweddion a ddiffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac os felly, pam a beth y gellid ei wneud i newid hyn.

Nododd nifer o ymatebwyr y gynrychiolaeth anghymesur o fewn achosion addasrwydd i ymarfer o rai grwpiau. Amlygwyd pwysigrwydd mynd i'r afael â hyn a gwneud yn siŵr bod prosesau cwyno yn deg, ac yn ddiduedd.

Nododd un ymatebwr yr effaith ar oedran, ac anabledd o gael gwefan a deunyddiau hygyrch. Roeddent yn awgrymu bod y gwelliannau arfaethedig i wefan yr Awdurdod yn cael eu defnyddio fel cyfle i wella hygyrchedd i bobl â nam ar eu golwg, gan gynnwys drwy fodloni safonau print clir ac ymgorffori testun â llais.

Amlygodd dau reoleiddiwr fod y mwyafrif o'r rhai a gofrestrir ganddynt yn nodi eu bod yn fenywaidd. Nododd un o'r rhain yr effeithiau cadarnhaol posibl pe bai'r Awdurdod yn canolbwyntio mwy ar EDI ar gyfer ei unigolion cofrestredig. Tynnodd y llall sylw at effaith negyddol bosibl y model ffioedd heb ystyried y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Mae canfyddiadau o Gwestiynau 14 a 15 wedi'u defnyddio i lywio datblygiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Strategol 2023-26. Ar adeg cyhoeddi, rydym yn datblygu ein Cynllun Gweithredu EDI 2023-24 ac yn ystyried pa fesurau lliniaru pellach y gallai fod eu hangen mewn perthynas ag effeithiau a nodwyd. Byddai effeithiau mentrau newydd a amlinellir yng Nghynllun Strategol 2023-26 hefyd yn cael eu hystyried ar wahân cyn eu cyflwyno.

4. Camau nesaf

Cafodd canfyddiadau'r ymgynghoriad eu hystyried gan Fwrdd yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2023. Yna cafodd Cynllun Strategol 2023-26 ei ddiweddarau i gymryd adborth a'r drafodaeth hon i ystyriaeth. Yn unol â gofynion o dan ein deddfwriaeth, gosodwyd Cynllun Strategol 2023-26 gerbron y Senedd, ar 26 Ebrill 2023.

Mae fersiwn terfynol Cynllun Strategol 2023-26, ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, wedi'u [cyhoeddi ar ein gwefan](#). Bydd cyflawni yn erbyn y strategaeth, a newidiadau i'r AEC yn cael eu monitro gan yr Uwch Dîm Rheoli a'u goruchwylio gan Fwrdd yr Awdurdod.

Atodiad 1: Gofal mwy diogel i bawb Argymhellion ac Ymrwymiadau

Rhif	Beth?	Pwy?	Pennod
1	Dylai fod gan bob gwlad yn y Deyrnas Unedig Gomisiynydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu swyddogaeth gyfatebol, gyda chyfrifoldeb eang am nodi, monitro, adrodd a chynghori ar ffyrdd o fynd i'r afael â risgiau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.	Pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig	5
2	Mae rheolyddion a chofrestrau yn cydweithio i wella amrywiaeth paneli addasrwydd i ymarfer, penderfynwyr eraill ac uwch arweinwyr i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yn agosach.	Rheolyddion proffesiynol a Chofrestrau achrededig	1
3	Mae rheolyddion a chofrestrau yn gweithio gyda chyrrff iechyd a gofal eraill i gael gwell dealltwriaeth o'r proffil demograffig achwynwyr a lleihau rhwystrau i godi cwynion ar gyfer grwpiau penodol.	Rheolyddion proffesiynol, Cofrestrau Achrededig a chyrrff sector iechyd a gofal eraill	1
4	Mae rheolyddion a chofrestrau yn adolygu sut mae eu prosesau a chanllawiau addasrwydd i ymarfer yn mynd i'r afael â honiadau o ymddygiad hiliol a gwahaniaethol.	Rheolyddion proffesiynol a Chofrestrau achrededig	1
5	Data demograffig ar gwynion a wneir i'r gwasanaethau iechyd a gofal ar draws y DU yn cael ei gofnodi a'i wneud ar gael i bob corff ei ddefnyddio.	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	1
6	Mae llywodraethau'n defnyddio'r rhaglen diwygio rheoliadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol presennol i: <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd pwerau rheolyddion sydd â rôl mewn rheoleiddio busnesau • Ystyried a oes achos dros ymestyn pwerau rheoleiddio busnes i bob rheoleiddiwr y mae ei gofrestryddion yn gweithio mewn practisau 'stryd fawr' 	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig	2

<i>Rhif</i>	<i>Beth?</i>	<i>Pwy?</i>	<i>Pennod</i>
	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan reolyddion yr ystwythder i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil dulliau newydd o ariannu a darparu gofal, gan gynnwys cyflwyno technolegau newydd. 		
7	Mae rheolyddion yn mynd i'r afael ag arferion busnes sy'n methu â rhoi cleifion yn gyntaf, mewn perygl o danseilio hyder yn y proffesiynau, neu'n methu â chaniatáu i unigolion cofrestredig arfer eu barn broffesiynol. Dylid cynnal adolygiad traws-sector o effeithiolrwydd trefniadau i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau ariannol ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.	Rheolyddion proffesiynol	2
8	Mae llywodraethau, rheolyddion a chofrestrau yn adolygu sut y byddant yn pennu'r llinellau atebolrwydd ar gyfer technolegau newydd a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal.	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig, rheolyddion proffesiynol a Chofrestrau achrededig	2
9	Mae rheolyddion a chofrestrau yn cydweithio i nodi cyfleoedd i gyflymu cyflenwad y gweithlu, arfogi ymarferwyr i ymdrin â heriau yn y dyfodol o ran sut y caiff gofal ei ddarparu, cau bylchau diogelwch ac amddiffyn cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.	Rheolyddion proffesiynol a Chofrestrau achrededig	3
10	Mae proses glir i arwain datblygiad rolau iechyd a gofal newydd gan gynnwys cwmpas a diben y rôl, a'r broses ar gyfer penderfynu ar lefel y sicrwydd sydd ei angen.	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a chyrff addysg a gweithlu	3
11	Dylai fod ffordd gytûn hefyd o benderfynu pryd i wyro oddi wrth ddefnyddio dull gweithredu ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn seiliedig ar adolygiad o risgiau a buddion ochr yn ochr ag ystyried y cyd-destun cenedlaethol.	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig	3
12	Mae'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a darparu'r gweithlu iechyd a gofal ar draws y Deyrnas Unedig yn cefnogi dulliau	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol,	3

<i>Rhif</i>	<i>Beth?</i>	<i>Pwy?</i>	<i>Pennod</i>
	ychwanegol ac amgen o sicrwydd fel ffordd o reoli risgiau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.	cyrff addysg a gweithlu	
13	Mae pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydweithio i ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer rheoleiddio pobl, i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu strategaethau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol.	Llywodraethau'r Deyrnas Unedig	3
14	Dylai rheolyddion wneud mwy, yn unigol ac ar y cyd, i egluro ac esbonio eu hymagwedd at achosion lle mae gweithiwr proffesiynol wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad diogelwch claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth.	Rheolyddion proffesiynol	4
15	Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau nad yw'r dull ymchwilio 'mannau diogel' sy'n cael ei roi ar waith yn Lloegr yn torri ar draws y ddyletswydd gonestrwydd nac yn cael effaith negyddol fel arall ar dryloywder nac atebolrwydd.	Llywodraeth y Deyrnas Unedig	4
16	Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y broses o gymhwyso ein safonau EDI ar gyfer rheolyddion yn ymestynnol ac yn ysgogi gwelliant parhaus.	Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol	1
17	Bydd yr Awdurdod yn gweithio i sicrhau ymagwedd gyson ar draws ymarferwyr a reoleiddir a heb eu rheoleiddio trwy ein rhaglen Cofrestrau Achrededig a byddwn yn cyflwyno gofynion cliriach ar gyfer cofrestrau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ddiweddarach eleni.	Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol	1
18	Bydd yr Awdurdod yn edrych ar ei brosesau ei hun i sicrhau nad yw'n atgyfnerthu nac yn gwaethygu anghydraddoldebau yn y system reoleiddio.	Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol	1
19	Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei rôl oruchwylio i annog	Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol	1

<i>Rhif</i>	<i>Beth?</i>	<i>Pwy?</i>	<i>Pennod</i>
	cydweithredu, cydweithio a chydlyniant ar faterion EDI ar draws y system, gan nodi'r heriau cynhenid wrth geisio mynd i'r afael â phryderon diogelwch pan fo mor dameidiog.		
20	Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei rôl oruchwylio, ei arbenigedd a'i bŵer cynnull i gefnogi datblygiad y strategaethau rheoleiddiol gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig.	Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol	3
21	Bydd yr Awdurdod yn dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i ffyrdd i ddull 'mannau diogel' HSIB Lloegr, a mentrau eraill ar gyfer gwella diwylliant diogelwch, gefnogi gonestrwydd ac atebolrwydd. Bydd hyn yn cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd, gweithwyr proffesiynol, rheolyddion, a llawer o rai eraill.	Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol + rhanddeiliaid	4

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
16-18 New Bridge Street
Llundain EC4V 6AG

Ffôn: **020 7389 8030**
Ffacs: **020 7389 8040**
E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**
Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mai 2023

